OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2006 No. 2797

# Gorchymyn Deddf Cymdogaethau Glân a'r Amgylchedd 2005 (Cychwyn Rhif 2, Darpariaethau Trosiannol ac Arbedion) (Cymru) 2006

**Darpariaethau trosiannol: Deddf Gwaredu Sorod (Amwynder) 1978**

**8.**—(1) Nid yw'r diwygiadau a wnaed i Ddeddf 1978 gan—

(a) adran 11 (sy'n diwygio adran 3 o Ddeddf 1978);

(b) adran 12 (sy'n diwygio adran 4 o Ddeddf 1978);

(c) adran 13 (sy'n mewnosod adran 4A (canllawiau) yn Neddf 1978),

o Ddeddf 2005 yn effeithio ar weithrediad adrannau 3 a 4 o Ddeddf 1978 mewn perthynas â cherbyd y mae paragraff (2) yn gymwys iddo.

(2) Mae'r paragraff hwn yn gymwys i gerbyd y mae awdurdod lleol, a hynny cyn 27 Hydref 2006—

(a) wedi rhoi hysbysiad mewn perthynas ag ef o dan adran 3(2) o Ddeddf 1978; neu

(b) wedi dodi hysbysiad arno o dan adran 3(5) o'r Ddeddf honno.